



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Cyngor i Gleifion

Enterobacteriaceae sy'n cynhyrchu Carbapenemase (CPE)

Beth yw ystyr 'Enterobacteriaceae sy'n cynhyrchu Carbapenemase'?

Mae enterobacteriaceae yn facteria (germau) sydd fel arfer yn byw yn ddiniwed ym mherfedd bodau dynol. Gelwir hyn yn 'goloneiddio' (dywedir bod person yn 'gludwr'). Fodd bynnag, os bydd y bacteria yn mynd i'r lle anghywir, fel y bledren neu'r llif gwaed, gallant achosi haint. Carbapenems yw un o'r mathau mwyaf pwerus o wrthfotigau. Mae carbapenemases yn ensymau (cemegau), a wneir gan rai mathau o'r bacteria hyn, sy'n caniatáu iddynt ddinistrio gwrthfotigau carbapenem ac felly dywedir bod y bacteria yn gallu gwrthsefyll y gwrthfotigau.

Pam fod ymwrthedd carbapenem yn bwysig?

Dim ond yn uniongyrchol i'r llif gwaed y gellir rhoi gwrthfotigau carbapenem. Hyd yn hyn, mae meddygon wedi dibynnu arnynt i drin heintiau 'anodd' penodol yn llwyddiannus pan fydd gwrthfotigau eraill wedi methu â gwneud hynny. Mewn ysbyty, lle mae lawer o gleifion bregus, gall lledaenu bacteria gwrthsafol achosi problemau.

A yw cludo neu gael eich heintio ag Enterobacteriaceae sy'n cynhyrchu Carbapenemase angen triniaeth?

Os yw person yn cludo Enterobacteriaceae sy'n cynhyrchu Carbapenemase (a elwir weithiau'n CPE), nid oes angen iddynt gael eu trin. Fodd bynnag, os yw'r bacteria wedi achosi haint, yna bydd angen gwrthfotigau yn unol â chyngor Microbiologydd Ymgynghorol.

Sut allwn i 'ddal' Enterobacteriaceae sy'n cynhyrchu Carbapenemase?

Weithiau gellir dod o hyd i'r bacteria hyn yn byw'n ddiniwed ym mherfedd bodau dynol ac felly gall fod yn anodd dweud pryd neu ble y gwnaethoch ei ddal.

Fodd bynnag, mae mwy o siawns o ddal y bacteria hyn os ydych wedi bod yn glaf mewn ysbyty dramor **neu** mewn ysbyty yn y DU sydd wedi bod â chleifion yn cario'r bacteria, **neu** os ydych wedi bod mewn cysylltiad agos â chlodwr yn yr ysbyty **neu** yn y gymuned. Os bydd unrhyw un o'r rhain yn berthnasol i chi, a bod angen i chi gael eich derbyn i'r ysbyty, trefnir sgrinio ac efallai y cewch eich rhoi mewn ystafell sengl, o leiaf nes bod canlyniadau'r profion yn hysbys.

Sut y byddaf yn derbyn gofal tra yn yr ysbyty?

Efallai y cewch eich rhoi mewn ystafell sengl tra byddwch chi yn yr ysbyty ac ar unrhyw dderbyniadau dilynol. Efallai y gofynnir i chi ddarparu nifer o samplau i'w hanfon i'r labordy i wirio a ydych chi'n gludwr ynteu a oes gennych haint gyda'r bacteria. Mae'n debyg y bydd y rhain yn cael eu cymryd ar sail wythnosol yn ystod eich arhosiad. Efallai y cewch eich profi hefyd os buoch mewn cysylltiad agos â chlaf yn yr ysbyty hwn y canfuwyd bod ganddo organeb wrthsafol. Gallai'r samplau gynnwys e.e. y safle lle mae'r diferiad mewnwythiennol yn mynd i mewn i'r croen, swab rhefrol h.y. sampl a gymerwyd trwy fewnosod swab yn fyr y tu mewn i'ch rectwm (pen ôl), a/neu sampl o ysgarthion. Fel rheol cewch eich hysbysu o'r canlyniadau mewn dau i dri diwrnod, ond ni fydd yr un o'r mesurau hyn yn rhwystro'ch gofal mewn unrhyw ffordd.

Sut ellir rhwystro lledaeniad *Enterobacteriaceae* sy'n cynhyrchu Carbapenemase?

Os yw claf yn yr ysbyty yn cario'r bacteria hyn, gall fynd i mewn i amgylchedd y ward a chael ei drosglwyddo trwy gyswllt uniongyrchol â chlaf arall. Am y rheswm hwnnw, efallai y cewch eich rhoi mewn ystafell sengl i helpu i atal lledaeniad. Rhaid i weithwyr gofal iechyd olchi a glanhau eu dwylo yn rheolaidd. Byddant yn defnyddio menig a ffedogau (neu wên) wrth ofalu amdanoch chi. Y mesur pwysicaf i chi ei gymryd yw golchi'ch dwylo'n dda gyda sebon a dŵr, yn enwedig ar ôl mynd i'r toiled. Dylech osgoi cyffwrdd ag unrhyw ddyfeisiau meddygol (os oes gennych rai) fel eich tiwb cathetr wrinol a'ch diferiad mewnwythiennol, yn enwedig yn y man lle caiff ei roi i mewn yn y corff neu'r croen. Gofynnir i ymwelwyr lanhau eu dwylo wrth fynd i mewn a gadael yr ystafell ac efallai y gofynnir iddynt wisgo menig ffedog (neu wên) yn enwedig os ydynt yn cynorthwyo yn eich gofal. Gall glanhau amgylcheddol effeithiol a hylendid dwylo da gan bawb, staff, cleifion ac ymwelwyr, leihau'r risg o ledaeniad yn sylweddol.

Beth am yr adeg y byddaf yn mynd adref?

Er bod siawns y byddwch chi'n dal i fod yn gludwr pan ewch adref, bydd hyn yn eithaf aml yn diflannu gydag amser. Nid oes angen mesurau na thriniaeth arbennig; bydd unrhyw haint wedi cael ei drin cyn eich rhyddhau. Dylech fynd o gwmpas eich bywyd fel arfer, gan gynnal hylendid dwylo da yn enwedig ar ôl defnyddio'r toiled. Os oes gennych unrhyw bryderon efallai yr hoffech gysylltu â'ch meddyg teulu i gael cyngor.

Cyn i chi adael yr ysbyty, gofynnwch i'r meddyg neu'r nyrs roi llythyr neu gerdyn i chi yn cynghori eich bod wedi cael haint, neu wedi eich coloneiddio ar hyn o bryd/wedi cael eich coloneiddio yn y gorffennol ag *Enterobacteriaceae* sy'n cynhyrchu Carbapenemase. Bydd hyn yn ddefnyddiol ar gyfer eich gofal yn y dyfodol ac mae'n bwysig eich bod yn gwneud staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwybodol ohono e.e. wrth fynychu apwyntiad claf allanol neu pan fydd y tîm nyrsio cymunedol yn ymweld â chi. Pe byddech chi neu aelod o'ch cartref yn cael eich derbyn i'r ysbyty, dylech roi gwybod i staff yr ysbyty eich bod yn gludwr, neu wedi bod yn gludwr, a dangos y llythyr/cerdyn iddynt.

Lle alla i gael mwy o wybodaeth?

Gofynnwch i'ch meddyg neu nyrs egluro hyn i chi yn fwy manwl. Gallant hefyd gysylltu â'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau ar eich rhan os ydych angen rhagor o wybodaeth am reoli CPE.

Mae gwefannau Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwefannau Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn ffynhonnell wybodaeth arall:

<http://www.hpa.org.uk/Topics/InfectiousDiseases/InfectionsAZ/CarbapenResistance>

Cynhyrchwyd y wybodaeth hon o Becyn Cymorth Iechyd Cyhoeddus Lloegr a chan gyfeirio at y Canllaw: Atal a rheoli bacteria Gram-negyddol sy'n gwrthsefyll aml-gyffuriau: argymhellion gan Weithgor ar y Cyd. APR Wilson et al. Journal of Hospital Infection 92 (2016) S1-S44

<https://www.gov.uk/government/publications/carbapenemase-producing-enterobacteriaceae-early-detection-management-and-control-toolkit-for-acute-trusts>

**“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”.**